Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

APLP
PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership
Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

ECAD4017C – Sesiwn 2

Mathemateg a Rhifedd

Bethan Sturrock

b.sturrock@uwtsd.ac.uk

- Fframwaith Rhifedd
- Dysgu Mathemateg ar draws y Cwricwlwm
- Arfer effeithiol wrth gyflwyno rhifedd

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig



- Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

- Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.

- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

- Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.



Dyfodol Llwyddiannus 2022 Successful Futures

Y Cwricwlwm yng Nghymru | The Curriculum in Wales

Y 12 Egwyddor Addysgegol:

Mae dysgu ac addysgu da yn;

1. Canolbwyntio'n gyson
2. Yn rhoi her i'r holl ddysgwyr
3. Defnyddio cymysgedd o ddulliau
4. Defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
5. Gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
6. Creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
7. Dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
8. Ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad
9. Cryfhau'n gyson cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer
10. Cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain
11. Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
12. Hybu cydweithio

The Twelve Pedagogical Principles:

Good teaching and learning;

1. Maintains a consistent focus on the overall purposes of the curriculum
2. Challenges all learners by encouraging them to recognise the importance of sustained effort in meeting expectations that are high but achievable for them
3. Means employing a blend of approaches including direct teaching
4. Means employing a blend of approaches including those that promote problem solving, creative and critical thinking
5. Sets tasks and selects resources that build on previous knowledge and experience and engage interest
6. Creates authentic contexts for learning
7. Means employing assessment for learning principles
8. Ranges within and across Areas of Learning and Experience
9. Regularly reinforces Cross-curriculum Responsibilities, including literacy, numeracy and digital competence, and provides opportunities to practise them
10. Encourages children and young people to take increasing responsibility for their own learning
11. Supports social and emotional development and positive relationships
12. Encourages collaboration

6 Areas of Learning and Experience

1. Expressive arts
2. Health and well-being

Addysgeg

Pedagogy

Trafodwch y prif ganfyddiadau (tud 11-13)

[Dysgu gweithredol a thrwy brofiad - Arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen wrth gyflwyno llythrennedd a rhifedd ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 - Estyn]

Mae'r Adolygiad yn argymell y dylai llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fod yn Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd i'r holl athrawon a phobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Rhaid sicrhau, drwy strwythur y cwricwlwm, fod plant a phobl ifanc yn datblygu lefelau cymhwysedd uchel yn yr agweddau hynny a'u bod yn cael cyfleoedd aml i'w datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm.

Dyfodol Llwyddiannus 2015

Cynllunio cydlynus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion

Arfer effeithiol 6 Gorffennaf 2023

Rhannu'r dudalen hon

Ysgol Caer Elen

Trafodwch

Pa effaith y mae'r gwaith hwn wedi ei chael ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr?

Cynllunio cydlynus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion - Estyn

Meysydd dysgu a phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol

Iechyd a Lles

Y Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dywed Estyn

'Pan fydd arolygwyr yn arsylwi gwersi yn ystod arolygiadau, nid oes blychau ticio ganddynt i'w llenwi ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Dylai athrawon fanteisio ar y cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn y cwricwlwm i atgyfnerthu dysgu mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu bod llythrennedd a rhifedd yn troi'n ddeddf y mae'n rhaid ei chynnwys ym mhob gwers yn y diwrnod ysgol, ni waeth beth yw'r pwnc.'

Arolygu/Eglurhad (Estyn, 2015, C6)

'Nid oes disgwyl i ysgolion greu cyfleoedd i ddisgyblion ddangos eu medrau mewn TGCh, rhifedd, llythrennedd neu Gymraeg ym mhob gwers.'

Arolygu/Eglurhad (Estyn, 2015, C22)

Estyn say

'Inspectors do not have literacy and numeracy boxes to tick whenever they observe lessons during inspections. Teachers should take advantage of opportunities that occur naturally in the curriculum to reinforce learning in literacy and numeracy. However, this should not mean that literacy and numeracy become mantras for repetition in every lesson in the school day no matter what the topic.'

Inspection Clarified (Estyn, 2015, Q6)

'Schools are not expected to create opportunities for pupils to show their skills in ICT, numeracy, literacy or Welsh in every single lesson.'

Inspection Clarified (Estyn, 2015, Q22)

Medrau rhif

Cyd-destun

Mae disgyblion yn ymarfer galw bondiau rhif a dyblu rhifau i gof tra'n datblygu eu medrau echddygol bras a meithrin cryfder corfforol a stamina.

Beth mae disgyblion yn ei wneud?

Mae disgyblion yn ymarfer galw bondiau rhif a dyblygu rhifau i 10 i gof fel grŵp dan do.

Wedi iddynt fynd i'r awyr agored, mae disgyblion yn gweithio mewn parau. Maent yn darllen y rhif ar gerdyn ac yn ei ddyblu yn eu pen. Wedyn, maent yn gwirio'r cerdyn 'sut i deithio' i weld sut dylent deithio o'r man cychwyn at fwced sy'n dangos yr ateb cywir.

Maent yn rhedeg yn ysgafn, yn sgipio ac yn hopian ar wahanol goesau, yn cymryd neidiau bach, neidiau mawr neu'n carlamu i deithio at y bwcedi ateb yn y ffordd gywir. Wedi iddynt gyrraedd yno, maent yn codi'r bêl a'i rhoi yn y fwced.

Mae rhai o'r bwcedi wedi'u gosod yn uwch i fyny ar wal i annog medrau ymestyn a thaflu.

Mae disgyblion yn gwirio eu bod yn gywir trwy edrych ar yr atebion cywir o dan y fflapiau ar y 'bwrdd gwirio'. Os ydynt yn gywir, maent yn rhoi pwynt i fyny ar y siart cyfrif ac yn dechrau eto gyda'r cerdyn rhif nesaf a'r cerdyn 'sut i deithio'.

Mae ysgolion uchel eu perfformiad yn rhannu angerdd a gweledigaeth ar gyfer sicrhau bod gan ddisgyblion ddigon o gyfleoedd i fod yn weithgar yn gorfforol a dysgu yn yr awyr agored. Credant fod hyn yn arwain at lefelau uchel o ddiddordeb ac ymglymiad gan ddisgyblion, sydd yn eu tro yn arwain at safonau uchel. Mae athrawon yn dod o hyd i ffyrdd dychmygus i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm trwy ddysgu gweithredol yn yr awyr agored.

Beth yw'r effaith?

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio dull galw i gof ffeithiau rhif i 10 i ddyblu a haneru rhifau'n gywir. Maent yn dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau pen yn gyflym, gan alw i gof ddyblau a rhifau sy'n agos at fod yn ddyblau i 10 yn gywir. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithio â'i gilydd yn dda ac yn siarad am yr hyn y maent yn ei wneud yn frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn gywir ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus. Mae bron pob un ohonynt yn deall a defnyddio geirfa fathemategol berthnasol yn briodol.

cyfarwyddiadau yn ll
Mae bron pob un oho
a defnyddio geirfa fat
berthnasol yn briodol



Medrau rhif a mesur

Cyd-destun

Mae disgyblion yn trosglwyddo medrau mathemategol i weithgareddau chwarae a gweithgareddau ystafell ddosbarth.

Beth mae disgyblion yn ei wneud?

Mewn becws 'dros dro' yn yr ardal chwarae rôl, mae disgyblion yn pwyso, mesur a chanfod cost cynhwysion i wneud cacennau.

Maent yn darllen cyfarwyddiadau'r rysait yn gywir, gan bwyso cynhwysion yn gywir a dylunio posteri ar gyfer amseroedd agor a chau, costau cacennau amrywiol ac i hysbysebu'r siop.

Mae disgyblion yn penderfynu am faint y dylid gwerthu pob cacen i dalu cost y cynhwysion, gan ganfod atebion trwy gymhwyso eu gwybodaeth am adio a lluosi. Maent yn dylunio clociau i arddangos amseroedd agor a chau ac yn ysgrifennu amserlen wythnosol, sy'n amrywio yn unol â'r angen i allu cau'n gynnar.

Rhaid i'r siopwr a chynorthwywyr y siop ganfod faint o newid y mae angen iddynt ei gadw yn y til i allu rhoi newid i gwsmeriaid yn gyflym.

Mae disgyblion yn defnyddio stori 'Charlie a'r Ffatri Siocled' fel symbyliad i ddylunio a gwneud eu siocledi eu hunain. Maent yn cyfrifo'r costau trwy ymweld ag archfarchnad leol i edrych ar brisiau siocledi.

Maent yn cynnal arolwg o hoff siocled disgyblion er mwyn penderfynu pa fath i'w gwneud. Mae gwahanol grwpiau yn mesur a phwyso cynhwysion i wneud siocledi gwyn a siocledig â blas mewn mowldiau gwahanol siapiau.

Maent yn gwerthu'r rhain yn yr haf ac yn gofalu am farchnata, pecynnu a gwerthu'r eitemau. Ar ôl y digwyddiad, maent yn canfod maint yr elw ac yn dylunio siart bar syml sy'n darlunio'r eitemau mwyaf poblogaidd a werthwyd.

Mae disgyblion yn darganfod 'esgyrn deinosoriaid' mewn tywod y tu allan. Maent yn defnyddio brwsys paent mewn gwahanol feintiau i'w cloddio ac yn eu glanhau. Maent yn dadorchuddio'r esgryn a'u rhoi yn ôl at ei gilydd i greu sgerbwd llawn y deinosor. Maent yn cymharu hyn â'u cyrff eu hunain, gan amcangyfrif faint yn hirach ydyw.

Maent yn penderfynu dod o hyd i rannau eraill o'r corff yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae rhai ohonynt yn dod o hyd i frigau a cherrig bach fel dannedd. Mae hyn yn creu llawer o drafodaeth ac amcangyfrifon am faint.

Wedyn, mae disgyblion yn creu olion traed deinosoriaid o wahanol feintiau ar yr iard, gan ddefnyddio papur lliw, gan eu mesur a'u torri allan yn ofalus. Maent yn amcangyfrif traed faint o ddisgyblion fydd yn ffitio ym mhob ôl-troed.

Mae disgyblion mwy abl yn mynd â hyn ymhellach ac yn penderfynu mapio maint deinosor mawr arall sy'n 40m. Maent yn defnyddio olwyn fesur i'w fesur ac wedyn yn cofnodi hyn ar gyfrifiadur llechen a'i farcio mewn sialc fel bod plant eraill yn gallu gweld pa mor fawr oedd Diplodocus.

Beth yw'r effaith?

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau eu hunain ac yn defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol.

Mae llawer o ddisgyblion yn canfod cyfansymiau ac yn rhoi newid am eitemau hyd at £1.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda a chywirdeb wrth bwyso eitemau mewn gramau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen a gosod amseroedd mewn oriau a munudau ar gloc, gan gynnwys hanner awr wedi, chwarter i, a chwarter wedi.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad ymarferol i lywio amcangyfrifon cywir o hyd, gan ddefnyddio mesuriadau safonol ac ansafonol.

Medrau rhif a rhesymu mathategol

Cyd-destun

Mae disgyblion yn trosglwyddo medrau mathategol i weithgareddau chwarae a gweithgareddau ystafell ddosbarth.

Beth mae disgyblion yn ei wneud?

Mae disgyblion yn edrych ar fag yn llawn dillad sydd wedi cael eu cymysgu yn y golch. Maent yn eu didoli yn faint, canolig a mawr.

Mae'r disgyblion yn trafod sut gallant fesur y dillad a pha fath o offer sydd ei angen arnynt i fesur. Mae rhai ohonynt yn gyfarwydd â mesuriadau safonol ac yn defnyddio pren mesur neu ffon fetr tra bydd disgyblion eraill yn defnyddio mesuriadau ansafonol. Maent yn didoli'r dillad i'r pentyrrau cywir ac yn cyfiawnhau eu dewisiadau pan gânt eu herio gan oedolyn.

Mae disgyblion yn darllen problemau geiriau yn seiliedig ar rannu darnau arian aur o gist trysor a ddarganfuwyd gan fôr-ladron.

Dyma enghreifftiau o broblemau:

Os ydych yn rhannu pedwar darn arian aur rhwng pedwar môr-leidr, faint o ddarnau arian aur fyddant yn eu cael yr un?

Mae disgyblion yn defnyddio gwialenni pysgota tegan magnetig i bysgota am nifer gywir y darnau arian yn yr hambwrdd dŵr. Maent yn casglu nifer gywir y cardiau môr-leidr ac yn gweithio'n ymarferol i ddatrys y broblem. Maent yn cofnodi rhif y frawddeg i ddangos yr ateb.

Mae disgyblion yn dilyn set o gyfarwyddiadau yn yr awyr agored i ganfod a datrys problemau mathategol sydd wedi'u cuddio y tu allan. Wrth iddynt wneud hyn, maent yn darlunio map syml o'u taith. Mae hyn yn cynnwys cyfrif eu camau a nifer y camau ymlaen, yn ôl, i'r chwith ac i'r dde sydd eu hangen. Maent yn ysgrifennu nifer y camau ar eu map ac yn defnyddio saethau i nodi troeon i'r chwith neu'r dde, a ph'un a yw'r rhain yn hanner troeon neu'n droeon llawn.

Maent yn gweithio mewn parau i ddod o hyd i'r cliwiau ac yn eu datrys gan ddefnyddio eu meddwl i alw ffeithiau rhif i gof. Er enghraifft, maent yn dod o hyd i hwyaid sydd â rhifau ar y gwaelod, ac yn eu bachu. Rhaid iddynt adio'r ddau ddigid at ei gilydd, wedyn dyblu neu haneru'r ateb. Mae disgyblion hefyd yn dod o hyd i glociau a rhaid iddynt symud y bysedd i ddangos gwahanol amseroedd, gan gynnwys hanner awr wedi, chwarter i, a chwarter wedi. Wedyn, rhaid i ddisgyblion mwy abl ddangos faint o'r gloch fyddai awr yn ddiweddarach neu bedair awr yn ddiweddarach.

Beth yw'r effaith?

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu tablau 2, 3, 4 5 a 10 i ddatrys y problemau rhannu a dechrau deall gweddillion.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol yn hyderus.

Mae llawer ohonynt yn didoli eitemau yn ôl maint yn gywir ac yn esbonio eu syniadau'n glir.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn ddarluniadol ar ffurf map, gan ddangos cyfarwyddiadau clir, a defnyddio mesuriadau ansafonol ac ymwybyddiaeth o droeon cyfeiriadol.

Gall disgyblion mwy abl ddarllen a newid yr amser yn gywir ar gloc analog.

Beth mae disgyblion yn ei wneud?

Mae disgyblion yn mynegi diddordeb mewn adeiladu eu cuddfan eu hunain yn ystod sesiwn Ysgol Goedwig. Maent yn trafod beth sydd ei angen i adeiladu'r guddfan, a faint o bobl sydd angen ei defnyddio.

Maent yn trafod sut byddant yn adeiladu'r guddfan, er enghraifft defnyddio rhaff, clymau, tarpolin a chynheiliaid. Maent yn casglu'r cynheiliaid ac wedyn yn amcangyfrif yr hydoedd angenrheidiol. Maent yn gofyn cwestiynau fel 'A yw'n dalach na fi? A yw'n syth? A yw'n ddigon hir i'r gorchudd ffitio yn ddiogel?' Maent yn defnyddio'r meintiau cynnal a'r gorchuddion priodol i adeiladu'r guddfan.

Mae grŵp arall yn penderfynu bod arnynt eisiau cynnau eu tanau eu hunain. Yn hytrach na defnyddio'r twll tân, maent yn dewis gwrthrychau, fel cragen, powlen tân fach a thun gwersylla. Maent yn siarad am y tair elfen sydd eu hangen i wneud tân, sef:

Beth yw'r effaith?

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar ddisgyblion eraill yn astud, ac ymateb yn briodol.

Mae llawer ohonynt yn siarad am bethau y maent yn eu gwneud, gan esbonio'r broses, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda disgyblion eraill ac yn siarad am yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae llawer ohonynt yn trosglwyddo medrau mathemategol i weithgareddau chwarae a gweithgareddau ystafell ddosbarth yn hyderus; maent yn dewis offer ac adnoddau priodol yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad ymarferol i lywio amcangyfrifon, a gallant ddefnyddio iaith fathemategol i siarad am eu dewisiadau.

Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau nad ydynt yn safonol ac unedau safonol i fesur hyd yn gywir.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Rhan o Fframweithiau'r sgiliau trawsgwricwlaidd

Fframwaith Rhifedd 2022
https://hwb.gov.wales/api/storage/f0f6edf7-415f-42aa-9053-6f8e691e2eff/fframwaith-rhifedd.pdf



0 1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11 12 13 14 15 16 17 18 19 20

Gwahaniaethu

Mae gan Siôn 8 afal. Mae'n cael 3 afal arall, yn rhoi 2 afal i'w chwaer, ac yna'n cael 4 afal arall.

Dechreuwn gyda 8 afal:

🍎🍎🍎🍎🍎🍎🍎🍎

Ychwanegu 3 afal: 🍎🍎🍎

Tynnu 2 afal: ❌❌

Ychwanegu 4 afal: 🍎🍎🍎🍎

Cyfrifa'r afalau sydd ar ôl i gael **13 afal**!

Dechreua ar 8.

- Neidia 3 ymlaen: $8 \to 11$
- Neidia 2 yn ôl: $11 \to 9$
- Neidia 4 ymlaen: $9 \to 13$

1. $8 + 3 = 11$
2. $11 - 2 = 9$
3. $9 + 4 = 13$

Mae gan Emma 6 tedi bêr. 🧸

- Mae hi'n cael 4 tedi bêr arall.
- Mae hi'n rhoi 3 tedi bêr i'w ffrind.
- Mae hi'n cael 2 dedi bêr arall.

Dechreua gyda 6 tedi bêr:

🧸🧸🧸🧸🧸🧸

Ychwanega 4 arall:

🧸🧸🧸🧸

Rho 3 i ffwrdd:

❌❌❌

Ychwanega 2 arall:

🧸🧸

Cyfrifa'r tedi bêrs sydd ar ôl. Mae **9 tedi bêr** ar ôl!

Dechreua ar 6.

- Neidia 4 ymlaen: $6 \rightarrow 10$
- Neidia 3 yn ôl: $10 \rightarrow 7$
- Neidia 2 ymlaen: $7 \rightarrow 9$

1. $6 + 4 = 10$
2. $10 - 3 = 7$
3. $7 + 2 = 9$

Mae gan Mali 15 o losin. 🍬

- Mae hi'n cael 8 losin arall gan ei mam.
- Mae hi'n rhoi 6 losin i'w ffrind.
- Mae hi'n cael 5 losin arall gan ei thad.

Faint o losin sydd gan Mali ar y diwedd?

Dechreuwn gyda 15 o losin:

🍬🍬🍬🍬🍬 🍬🍬🍬🍬🍬 🍬🍬🍬🍬🍬

Ychwanegu 8 losin arall: 🍬🍬🍬🍬🍬🍬🍬🍬

Rhoi 6 losin i ffwrdd: ❌❌❌❌❌❌

Ychwanegu 5 losin arall: 🍬🍬🍬🍬🍬

Cyfrifa'r losin sydd ar ôl i gael **22 o losin!**

Dechreua ar 15.

- Neidia 8 ymlaen: $15 \rightarrow 23$
- Neidia 6 yn ôl: $23 \rightarrow 17$
- Neidia 5 ymlaen: $17 \rightarrow 22$

1. Mae Mali'n cael 8 losin arall:

$$15 + 8 = 23$$

2. Mae hi'n rhoi 6 losin i'w ffrind:

$$23 - 6 = 17$$

3. Mae hi'n cael 5 losin arall:

$$17 + 5 = 22$$

Ateb: Mae gan Mali 22 o losin! 🎉

Themau trawsgwricwlaidd



Dangos enghraifft o gynllun gwers Mathemateg a Rhifedd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

APLP
PDPA
Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Darpar athro:	Bethan Sturrock	**Dosbarth / Grŵp**	Blwyddyn 1
MDPh neu Bwnc:	Mathemateg	**Dyddiad** *(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus)*:	6.2.25 / 10.2.25
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'…)	• Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. • Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.		
Cysylltiadau ystyrlon ar draws y Cwricwlwm (Cysylltiadau â MDPhau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd)	• Rwy'n gallu segmentu cyfuniadau o lythrennau cyfarwydd ar lafar. • Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei weld a'i ddarllen. • Rwy'n gallu cyfrif yn ddibynadwy, ymlaen ac yn ôl, y tu hwnt i 10. • Rwy'n gallu cyfuno dau grŵp o wrthrychau i ddod o hyd i 'faint i gyd?'. • Rwy'n gallu dangos ymwybyddiaeth o ddiben arian drwy chwarae rôl ac mewn sefyllfaoedd go iawn. • Rwy'n gallu cyfnewid arian am eitemau a defnyddio iaith arian. • Rwy'n gallu creu gwaith digidol syml. • Rwy'n gallu cyflwyno a gwerthuso fy nata drwy greu siartiau syml, *e.e. pictogram.*		

Targedau Personol (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu neu gyfarfod adfyfyrio wythnosol a disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu)

Bwriad Dysgu
'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.' (Crichton, H., a Mcdaid, A. 2016 t. *196)*

BYDSI – ddefnyddio darnau arian i brynu ffrwythau o'r siop gan wneud cyfansymiau o hyd at 20c, a dechrau a radio dau swm arian gyda'i gilydd

Meini prawf llwyddiant
Yr hyn mae angen i'r disgyblion ei ddangos i fodloni'r Bwriad Dysgu yn llwyddiannus.

- Adnabod darnau arian 1c, 2g, 5c, 10c
- Defnyddio darnau numicon i gyfateb á'r darnau arian gwahanol

Tasg

Defnyddiwch y fframwaith rifedd i'ch cynorthwyo chi.

Dewisiwch 2/3 thema.

Yn eich grwpiau, meddyliwch am weithgareddau mathemategol i gyd-fynd â'r thema.

Byddwch yn barod i rannu eich syniadau

Manylion y gofynion

- Pwrpas: I baratoi ar gyfer cynllunio a chyflwyno gwersi effeithiol a chasglu tystiolaeth ar gyfer safonau SAC
- Dogfennau cefnogol: Dyfodol Llwyddiannus (12 Egwyddor Addysgeg) & deunydd penodol Mathemateg a Rhifedd
- Byddwch yn addysgu fel grwp o hyd at 4 o fyfyrwyr
- Trefnwch eich rolau'n effeithiol – ystyriwch pryd byddwch yn gweithio gyda pwy, a sut i 'rannu'r' rolau addysgu a chefnogi

- Hyd: cyfyngedig i 15 munud
- Grŵp oedran/Cam cynnydd: Nodwch hyn yn glir wrth gyflwyno
- Adnoddau: Paratowch adnoddau ar gyfer y sesiwn
- Strwythur posib: cyflwyniad, gweithgareddau, diweddglo